14EG O CHWEFROR

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr Wythnosol



## Wythnos yma

### Cofrestru ar gyfer Eisteddfod yr Urdd

Mae'r disgyblion wedi bod wrthi dros yr wythnosau diwethaf yn ymarfer yr unawd a'r darn llefaru ar gyfer Eisteddfod yr Urdd yn eu dosbarthiadau. Cofiwch os ydy eich plentyn am gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd mae rhaid iddynt fod yn aelod o'r Urdd. Dyma'r linc ar gyfer ymaelodi.
**https://www.urdd.cymru/cy/ymuno/ymaelodi-dy-hun-dy-blant-neu-deulu-gydarurdd/**
Cofiwch hefyd bod angen i chi fel rheini i'w cofrestru ar y Porth( sef system cofrestru cystadleuwyr ar gyfer yr Eisteddfod). Dyma linc i'r Porth.**ttps://porth.urdd.cymru** Os oes angen cymorth arnoch i wneud hyn neu os ydych chi am i ni wneud fel ysgol, cofiwch gysylltu.**Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru disgyblion i gystadlu yw dydd Llun y 17eg o Chwefror.**

### Taith Dysgu'r Cyngor Ysgol

Mae disgyblion hŷn y Cyngor Ysgol wedi bod wrth yn gwneud Taith Dysgu er mwyn gwerthuso'r amgylchedd dysgu ym mhob dosbarth ar draws yr ysgol. Roedd y Cyngor Ysgol wedi edrych ar ddefnydd y disgyblion o'r waliau gweithredol yn eu dosbarthiadau, effaith yr ardaloedd creadigol sy'n seiliedig ar ein y Continwwm Chwarae a hefyd defnydd y disgyblion o'r hafan a'r gorlan tu allan i'w dosbarthiadau. Diolch yn fawr i Jack, Gruff ac Idris am eu holl waith a bydd y tri nawr yn adrodd nôl i'r staff a'r llywodraethwyr.

### Diwrnod Perfformio

Rydym wedi bod wrthi dros yr wythnosau diwethaf yn dysgu'r unawd a'r llefaru i bob disgybl yn yr ysgol. Eleni am y tro cyntaf nid ydym yn cynnal clyweliadau ysgol ac mae pawb yn cael y cyfle i gystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Heddiw roedd pob dosbarth wedi cael y cyfle i berfformio i'w cymuned yn neuadd yr ysgol. Diolch i'r staff am eu holl waith yn hyfforddi'r disgyblion. Byddwn yn cynnal sesiynau ymarfer dros yr wythnosau nesaf i'r disgyblion sydd am ymarfer cyn yr Eisteddfod.

### Eisteddfod Offerynnol

Llongyfarchiadau mawr i Morus Charles am gystadlu'n wych ddoe yng nghystadleuaeth yr unawd piano Bl6 ac iau.

## Calendr

**Dyddiad cau cofrestru disgyblion ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, 17/2/25**

**Bws Beic 21/2/25**

**Hanner tymor 24/2/25**

**Ysgol yn ail gychwyn i bawb 3/3/25**

## Dyddiadau pwysig ar ôl hanner tymor

**Diwrnod y Llyfr - dydd Iau, Mawrth y 6ed.**

Mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu yn ystod y dydd i ddathlu Diwrnod y Llyfr. Mae croeso i'r disgyblion ddod i'r ysgol yn gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr.

**Eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi - dydd Iau, Mawrth y 13eg.**

Byddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ac yn cynnal ein Eisteddfod ysgol ar y diwrnod yma. Yn yr Eisteddfod byddwn yn gwobrwyo storiâu, barddoniaeth a gwaith celf y disgyblion. Byddwn hefyd yn cadeirio'r bardd buddugol! Croeso i'r disgyblion wisgo dillad coch i'r ysgol neu wisg Gymreig draddodiadol.

### Mrs Marged Miles Farrier

Bydd Mrs Marged Miles Farrier, arweinydd cymuned Manawydan ac athrawes dosbarth Bl 6 Taliesin yn cychwyn ei chyfnod mamolaeth ar ôl y gwyliau hanner tymor. Dymunwn bob dymuniad da iddi hi a'r teulu.

Yn ei habsenoldeb bydd Mrs Afryl Davies yn addysgu dosbarth bl 6 Taliesin. Bydd ei chyfrifoldebau arwain yn cael eu rhannu rhwng Mrs Eleri Jones a Mrs Elin James.

### Y GRhA

I ddathlu Diwrnod y Llyfr bydd stondin llyfrau ar iard yr ysgol bob diwrnod am 3.30, yn ystod yr wythnos yn cychwyn y 3ydd o Fawrth.

Diolch i'r GRhA am drefnu'r stondin a diolch I chi fel rhieni am eich rhoddion caredig.



## Bws Beic

Bydd y Bws Beic nesaf ar ddydd Gwener, y 21ain o Chwefror.Croeso i bawb a dewch ar feic neu sgwter! Ymunwch â'r Bws Beic ym Mharc Thompson, Chapter neu ar gornel strydoedd Brunswick/Efrog.




## Patrwm iaith yr wythnos

**Patrwm iaith yr wythnos ar ôl hanner tymor**

Beth sy'n bod?

Mae…a. gen i.

**Her**

Oes (peswch/annwyd ayb) arnat ti?

Oes, mae…arna i..

Nac oes, does dim..arna i

**Testun trafod yr wythnos**

Pan dwi'n gwylio'r teledu, does dim yn well na…

**Cân yr wythnos**

Mellt - Diwrnod Arall

**Idiom yr wythnos**

Codi calon